



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Y Senedd

SeneddDCC@senedd.cymru

8 Chwefror 2022

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Ionawr mewn perthynas ag ystyriaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021 (y Rheoliadau).

Eir i'r afael â'r effaith ar gydraddoldeb yn yr Aseidiadau Effaith Cryno sy'n ymwneud â newidiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y prif Reoliadau).

Wrth ystyried tynhau mesurau diogelu, a gyflawnir drwy ddiwygio'r prif Reoliadau, cynhelir Aseiad Effaith Cryno. Bydd Aseiad Effaith Cryno newydd yn cael ei lunio pan fydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno. Pan fo mesurau wedi cael eu defnyddio o'r blaen, rydym yn adolygu'r Aseiad Effaith Cryno presennol, ac yn ei ddiweddarau o bosibl.

Pan fyddwn yn llacio mesurau diogelu, byddai aseiad newydd neu wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi pe bai'r effeithiau'n wahanol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol. Os disgwylir i'r effeithiau fod yr un fath, mae'r aseiad effaith a gyhoeddwyd yn flaenorol yn parhau'n ddilys.

Gwneir pob ymdrech i gyhoeddi Aseidiadau Effaith Cryno cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl wedi i'r Rheoliadau diwygio gael eu gwneud. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio eich bod yn deall, o ystyried natur y pandemig sydd wedi symud yn gyflym ar adegau, yr amserlenni byr ar gyfer gwneud y Rheoliadau diwygio, y broses sicrhau ansawdd hirach a natur gymhleth a sylweddol y deunydd a gynhwysir yn yr Aseiad Effaith Cryno, y gellir profi oedi yn aml rhwng cyhoeddi'r Rheoliadau diwygio a'r Aseiad Effaith Cryno.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn adolygu proses yr Aseiad Effaith Cryno ar gyfer newidiadau a wneir i'r prif Reoliadau a byddant yn ystyried sylwadau gan y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi nodi tri Asesiad Effaith Cryno nad ydynt, er eu bod wedi'u cwblhau, wedi cael eu cyhoeddi eto. Mae'r Asesiadau hyn bellach yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd terfynol, ac yn cael eu cyfieithu, a bwriedir eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r tri Asesiad Effaith Cryno yn ymwneud â:

- Adolygiad 3 Mehefin 2021 (gan gynnwys caniatáu i chwe unigolyn o chwe aelwyd gymysgu o dan do; hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored; ymestyn 'aelwydydd estynedig' ac agor canolfannau sglefrio iâ)
- Adolygiad 15 Gorffennaf 2021 (gan gynnwys y rheol chwe pherson i gyfarfod dan do mewn anheddau preifat, digwyddiadau dan do; canolfannau sglefrio iâ; clybiau nos a chanolfannau adloniant i oedolion; ymweliadau preswyl ac ymgynnull yn yr awyr agored)
- Awst 2021 – mesurau sylfaenol Lefel Rhybudd Sero

Rwy'n gobeithio bod hwn yn esboniad defnyddiol o'r dull yr ydym yn ei ddilyn i ganfod effaith y camau pwysig yr ydym wedi eu cymryd, yn aml ar fyr rybudd, a chyhoeddi'r effaith hynny, wrth inni ymateb i'r pandemig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD